DogsTrust

Myfyrio

Gwrando

Dysgu

Gwasanaeth Ysgol

Adnodd

I blant 5-11 oed

Cyflwyniad

Croeso i lyfryn Adnoddau Gwasanaethau Ysgol yr Ymddiriedolaeth Cŵn (Dogs Trust). Mae'r llyfryn hwn yn addas i ddisgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2. Y tu mewn mae adnoddau ar gyfer pum gwasanaeth wedi eu seilio ar storïau, pob un â thema i helpu plant i ystyried mater pwysig:

- Croesawu rhywun newydd
- Cydweithio
- Bwlio
- Ymddiheuro
- Ffarwelio

Ar ddiwedd pob stori bydd y plant yn cael eu hannog i ystyried y thema, er mwyn gweld sut maen nhw'n ymateb i ddiwedd y stori, ac er mwyn cymharu'r digwyddiadau â rhai yn eu bywydau eu hunain. Mae'r straeon yn cyfeirio at ymddygiad cŵn a gofalu am gŵn mewn ffordd gyfrifol. Mae'r Ymddiriedolaeth Cwn (Dogs Trust) yn darparu amrywiaeth o adnoddau addysgol y gallwch eu defnyddio i drafod y pwnc hwn yn fanylach. Mae'r adnodd llythrennedd a rhifedd ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2 a'r adnodd ar-lein yn **www.learnwithdogs.co.uk** yn arbennig o berthnasol i'r grŵp oedran hwn.

Am wybodaeth am sut i gael gafael ar yr adnoddau hyn, neu i ddysgu mwy am Raglen Addysg Ieuenctid yr Ymddiriedolaeth Cŵn (Dogs Trust), ffoniwch 0870 333 0432.

Yr Ymddiriedolaeth Cŵn (Dogs Trust)

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i greu byd lle bydd pob ci yn gallu mwynhau bywyd hapus, heb fygythiad cael ei ddifa'n ddiangen. Mae'r elusen, a sefydlwyd yn 1891, yn ceisio gwireddu'r nod hwn drwy gyfrwng ei rwydwaith cenedlaethol o Ganolfannau Ailgartrefu, a thrwy addysg ac ymgyrchoedd lles.

Erbyn heddiw mae'n gofalu am dros 11,500 o gŵn bob blwyddyn drwy'r rhwydwaith o Ganolfannau Ailgartrefu yn y DU. Mae'r canolfannau hyn yn rhoi gofal a hyfforddiant i gŵn amddifad er mwyn gallu eu hailgartrefu. Yn 1964 penderfynodd Dogs Trust na fyddent byth yn difa ci iach, ac erbyn heddiw gellir noddi cŵn na chaiff eu hailgartrefu.

Mae Dogs Trust yn credu y gellir annog plant o bob oed i fod yn ddiogel a gofalgar gyda chŵn. Yn arbennig, mae angen i bobl ystyried goblygiadau bod yn berchennog ci - meddwl beth fydd cost y ci, yr amser sydd ei angen i wneud ymarfer corff ac i chwarae, pa mor hir y gellir gadael y ci ar ei ben ei hun yn y tŵ, a pha mor hir mae cŵn yn byw.

Rydym yn credu y bydd hyn yn lleihau nifer y teuluoedd sy'n cael ci heb ystyried y mater yn llawn, sy'n aml yn golygu y bydd y ci'n cael ei gam-drin neu ei adael yn amddifad.

Datblygwyd y deunyddiau hyn ar y cyd ag arbenigwyr addysgol ac athrawon wrth eu gwaith, er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn ac i gynorthwyo dysgu plant.



Defnyddio'r storïau

Y cast

Gellir defnyddio'r pum stori yn unigol, neu gyda'i gilydd mewn wythnos gyfan o wasanaethau. Mae pob stori'n ymdrin â thema wahanol ond mae thema ganolog drwyddi draw, sef gofalu am gŵn yn dda. Os hoffech ddefnyddio stori ar ei phen ei hun, neu ar ddechrau wythnos o storïau, cyflwynwch y cast drwy ddefnyddio'r testun isod ('Y cast'). Y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r stori olaf, 'Ffarwél', yw ei hadrodd ar ôl y storïau eraill.

Paratoi

Gellir defnyddio'r storïau mewn unrhyw fath o wasanaeth ond byddant yn gweithio orau mewn gwasanaeth anffurfiol, er enghraifft lle bydd yr athro'n eistedd ar gadair i arwain y gwasanaeth a'r plant yn eistedd mewn cylch o'i amgylch. Fel hyn byddant yn teimlo'n fwy o ran o'r stori ac yn cael eu hannog i ystyried a meddwl. Yn yr ystafell ddosbarth, mae'r storïau'n ddelfrydol ar gyfer amser stori mewn cylch.

Propiau

Byddai rhywbeth gweledol i ganolbwyntio arno yn ddefnyddiol. Gallech ofyn i'r plant ddod â chŵn tegan neu luniau o'u cŵn eu hunain i mewn, a dewis y pump sydd fwyaf tebyg i'r cymeriadau. Wedyn gellir cyflwyno pob cymeriad i'r plant yn y gwasanaeth; bydd hyn yn helpu i ddod â'r stori'n fyw yn nychymyg y plant. Gallwch hybu llythrennedd drwy greu cardiau mawr yn dangos y prif eiriau sydd ym mhob stori.

Cerddoriaeth

Bydd cerddoriaeth yn helpu i greu'r awyrgylch cywir ac yn helpu'r plant i ganolbwyntio. Ym mhob stori awgrymir cerddoriaeth boblogaidd y gellid ei chwarae pan fydd y plant yn dod i mewn i'r gwasanaeth ac yn gadael eto, ond efallai bod gan eich ysgol ganeuon eraill hefyd y gall y plant eu canu ar ôl iddynt gael cyfle i fyfyrio. Mae canu'n ysgogi ac mae'n gofiadwy, a bydd cerddoriaeth neu gân addas yn ychwanegu'n fawr at eu profiad o bob stori.

Myfyrio

Mae amser i fyfyrio ac ystyried yn rhan bwysig o wasanaeth, ac mae myfyrio yn sgìl ddefnyddiol i'w dysgu i blant sy'n tyfu mewn byd prysur. Mae pob stori'n cynnwys 'Amser i Feddwl' (a ddangosir â 🐾) y gallech ei ddefnyddio i stopio'r naratif am rai munudau i annog y plant i ystyried materion allweddol yn y stori. Ond os nad ydych am ymyrryd â llif y naratif, gallech godi'r materion hyn ar y diwedd, ar ôl rhoi cyfle i'r plant ystyried y stori am rai munudau. Os defnyddiwch yr ail ddull gallech ychwanegu at y naws a helpu'r plant i ganolbwyntio drwy chwarae darn tawel o gerddoriaeth yn ystod y myfyrio.

Syniadau Ychwanegol

Os oes amser, gallai'r plant gyflwyno rhai o'r gwasanaethau, neu eu cyflwyno i gyd. Gellid addasu pob stori i fod yn ddrama syml i'w hactio o flaen yr ysgol neu'r dosbarth. Fel arall, gallai'r plant ddarllen y stori eu hunain a/neu arwain y myfyrio. Ystyriwch greu sefyllfa fwy cartrefol nag arfer, gyda'r actorion neu'r siaradwyr yn agos at y gynulleidfa. Mae'r dull hwn yn gweithio yn arbennig o dda mewn gwasanaethau dosbarth neu flwyddyn, lle mae'r gynulleidfa'n fach a lle mae'r perfformiad yn llai tebygol o fod yn brofiad brawychus. Gallai gweithgareddau pellach helpu i atgyfnerthu'r neges ym mhob stori a helpu'r plant i weld y cysylltiad rhwng y thema a sefyllfa go iawn. Gallai'r gweithgareddau gynnwys creu bwrdd stori, bwrdd cysyniadau neu boster ar gyfer y stori, neu annog plant i ymateb i'r cwestiynau gan fyfyrio a thrwy ddefnyddio fframwaith ysgrifennu.

Y cast

Mae'r cŵn Rex, Rosie, Flick a Muffin gyd yn byw yn un o Ganolfannau Ailgartrefu'r Ymddiriedolaeth Cŵn (Dogs Trust). Mae'r cŵn yn y Ganolfan Ailgartrefu oherwydd doedd ar eu perchenogion ddim o'u heisiau, neu am nad oedden nhw'n gallu gofalu amdanynt. Mae'r Ymddiriedolaeth Cŵn (Dogs Trust) yn elusen sy'n gofalu am gŵn nes y cânt gartrefi newydd. Yn y Ganolfan Ailgartrefu 'Gofalwyr Cŵn Dogs Trust' sy'n gofalu am y cŵn - pobl sy'n gwneud yn siŵr bod y cŵn yn cael yr holl fwyd, ymarfer corff a chariad sydd eu hangen arnyn nhw. Doedd perchenogion Rex, Rosie, Flick a Muffin ddim yn sylweddoli cyfrifoldeb mor fawr yw bod yn berchennog ci, oherwydd bod angen llawer o gariad, ymarfer corff a bwyd ar gŵn bob dydd am hyd at bymtheng mlynedd. Gall bwyd ci a chostau milfeddyg pan fydd y ci yn sâl fod yn ddrud hefyd. Os bydd pobl yn cael ci heb ystyried yn ofalus, efallai na fyddan nhw'n gofalu am y ci'n iawn, ac weithiau bydd y ci'n cael ei gam-drin neu'n cael ei adael yn amddifad, fel y cwn yn ein stori ni.

Mae'r holl gŵn yn y straeon yn rhai croesfrid, sy'n golygu eu bod yn gymysgedd o nifer o wahanol fathau o gŵn. Rex yw'r ci mwyaf a'r ci cryfaf yn y grŵp. Mae e'n gyfeillgar iawn, ond dyw e ddim bob amser yn siarp iawn, ac mae e'n glafoerio llawer. Mae gan Rosie got fendigedig, ac mae hi'n fywiog ac yn glyfar. Flick yw arweinydd y pedwar ffrind. Mae e'n hoff iawn o gnapiau siocled ac o chwarae pêl. Mae Muffin yn gi annwyl iawn. Ar ôl rhedeg o gwmpas am sbel, does dim yn well ganddi na phendwmpian am oriau. Mae Rex a'r lleill yn chwarae gyda'i gilydd, ond maen nhw hefyd yn gwybod pryd i adael llonydd i'w gilydd. Yn y stori gyntaf mae Zippy, ci bach brown a gwyn, yn ymuno â nhw.

Thema: Croesawu rhywun newydd
Cerddoriaeth Bosibl: 'Consider yourself' (o'r sioe gerdd, 'Oliver')

Wyneb newydd

Un diwrnod, deffrodd Rex, Rosie, Flick a Muffin a gweld bod gwely newydd wedi ymddangos yn y gornel dros nos. Yn y gwely, dan flanced, roedd ci newydd yn cysgu. 'Mae ymwelydd gyda ni,' meddai Flick. 'Tybed pwy sy 'na?!' meddai Rex gan ysgwyd ei gynffon fawr. 'Gadewch inni weld!'

'Na,' atebodd Rosie. 'Os daeth o yn y nos, mi fydd wedi blino. Gadewch lonydd iddo. Mae'n siŵr o ddeffro pan fydd o'n arogli brecwast.'

Ystwythodd Muffin ei choesau. 'Gobeithio y daw o'n fuan,' meddai'n gysglyd. 'Dw i eisiau bwyd!' Gyda hynny, cyrhaeddodd un o Ofalwyr Dogs Trust gyda phum llond powlen o fwyd a phum llond powlen o ddŵr. Rhoddodd bedwar o bob un ar y llawr wrth ymyl y cŵn, a dechreuon nhw fwyta. Rhoddodd y ddau arall wrth y gwely newydd a gadael.

Yn sydyn, tra roedd Rex yn bwyta, cnôdd rhywbeth flaen ei gynffon! 'Aw!' cyfarthodd, gan gwympo ymlaen a glanio a'i ben yn ei fwyd. Fel unrhyw gi, doedd Rex ddim yn hoffi pobl yn ei boeni pan fyddai'n bwyta, ac roedd yn flin iawn.

'Oi! Oi! Pwy wyt ti? Fy enw i yw Zippy achos dw i wastad mor sionc!' meddai rhyw lais dieithr, wrth i gi bach pitw brown a gwyn redeg mewn cylchoedd o amgylch Rex. Syllodd Rex ar y ci pitw wrth iddo redeg gan darfu ar y gweddill nes eu bod hwythau yr un mor flin. 'Rex ydw i, a gad fi'n llonydd tra bydda i'n bwyta fy mrecwast, neu bydda i'n dy fwyta di hefyd!'

'Wwwwww! Gwrandewch arno fe! Ddali di mohono i!' gwaeddodd Zippy, gan redeg yn ôl at ei fwyd ei hun.

'Grêt,' ochneidiodd Flick. 'Ci bach dwl heb ddim manyrs. Jyst beth sydd ei angen arnon ni!!' Edrychodd y gweddill yn ddigalon ar Zippy. Doedden hwythau ddim yn siwr a oedden nhw'n hoffi'r syniad o gael cwmni newydd chwâith. 1 🐾

Wrth i'r dydd lusgo ymlaen, doedd dim pall ar egni Zippy. Byddai'n eu deffro pan fyddent yn cysgu, neu'n rhedeg ar eu holau pan fyddent y tu allan. Erbyn amser cinio, roedden nhw i gyd wedi cael llond bol arno. Doedden nhw heb gael munud o heddwch drwy'r dydd. O'r diwedd, pan ddaeth y gofalwr â'u powlenni bwyd a dŵr i mewn gyda'r nos, collodd Flick ei dymer gyda Zippy.

'Cer i dy gornel a bwyta dy fwyd. Paid â meddwl dod yn agos aton ni, na siarad â ni hyd yn oed. Ry'n ni wedi cael llond bol arnat ti, a dydyn ni ddim eisiau iti fod yn ein grŵp ni.' Edrychodd Zippy i fyny ar Flick. Disgynnodd ei glustiau, suddodd ei ben i lawr, ac aeth yn araf i'w gornel. 2 🐾

Dyma'r pedwar ci arall yn bwyta mewn heddwch ac wedyn yn swatio i gysgu am ryw ychydig. Ddaeth dim smic o gyfeiriad Zippy wrth iddo orwedd yn ei gornel yn syllu ar y wal. Edrychodd Flick draw ato. Ni allai gysgu oherwydd roedd yn teimlo'n euog am fod mor flin gyda Zippy. Roedd Rosie yn gwylio Flick, ac aeth ato.

'Wyt ti'n cofio pan ddest ti yma gyntaf?' gofynnodd yn dawel.

'O ydw,' meddai Flick. 'Ro'n i ofn am fy mywyd. Roedd popeth mor od, ac roeddwn i mor unig. Yr unig beth oedd yn bwysig oedd gwneud ffrindiau!'

'Wel, efallai mai dyna beth roedd Zippy yn ei wneud. Dim ond ci bach ydy o, cofia. Rhaid ei fod yn ofnadwy o anhapus draw yn fanna.'

Edrychodd Flick draw at Zippy eto. Roedd y ci bach yn edrych yn anhapus, yn anhapus iawn. Aeth Flick draw at Zippy a'i brocio gyda'i drwyn. 'Mae'n flin gen i 'mod i wedi cyfarth arnat ti, Zippy,' meddai. 'Rwy'n cofio pan ddes i yma gyntaf. Ro'n i gymaint eisiau rhywun i fod yn ffrindiau â nhw. Mae'n siwr 'mod innau wedi mynd dan groen y lleill hefyd. Dere draw i fan hyn aton ni.'



Gyda help Rex, tynnodd Flick wely Zippy draw at welyau'r gweddill.
Wrth i Zippy gwympo i gysgu, gwyliodd Flick ei gynffon yn chwifio'n ysgafn.

Myfyrio

🐾1 Pam nad oedd y cŵn eisiau rhannu â rhywun newydd? 🐾2 Sut mae Zippy yn teimlo? Sut mae Flick yn teimlo?

Meddyliwch am y tro cyntaf y daethoch chi i'r ysgol, neu am yr adeg y gwnaethoch chi ymuno â chlwb neu grŵp newydd. Sut roeddech chi'n teimlo?
Sut gallech chi fod yn ffrind i rywun newydd, a'i helpu i deimlo'n gartrefol?
Pryd na ddylech chi fynd yn agos at gi na'i fwytho?
Dylech chi bob amser ofyn caniatâd y perchennog cyn cyffwrdd ci, a dylech chi wastad adael llonydd i gŵn pan fyddant yn bwyta, yn cysgu neu wedi'u clymu.

Thema: Cydweithio
Cerddoriaeth Bosibl: 'With a little help from my friends' (The Beatles)

Gelli ddibynnu arnaf i!

Roedd Rex, Rosie, Flick, Muffin a Zippy yn chwarae yng ngardd y Ganolfan Ailgartrefu. Fel pob ci, roedd angen llawer o ymarfer corf arnyn nhw ac roedden nhw'n hoff iawn o fynd allan i redeg ac i chwarae. Roedd angen mwy o ymarfer ar rai o'r cŵn nag ar y lleill: byddai Flick, Rex a Rosie yn chwarae am ddwy neu dair awr, tra byddai Muffin yn ymuno am ychydig ac yna'n mynd i gysgu dan goeden. Ond byddai Zippy yn rhedeg o gwmpas drwy'r dydd gwyn nes byddai ei goesau yn rhoi o dano!



Roedd gan y pum ci bêl goch ac roedden nhw'n hoff iawn o redeg ar ei hôl o gwmpas yr ardd. Roedd Rosie a Flick wedi dysgu sut i wthio'u trwynau dan y bêl a'i thaflu i'r awyr er mwyn i un o'r cŵn eraill ei dal. Gwthiodd Rosie ei thrwyn reit o dan y bêl, a'i thaflu'n uchel i'r awyr.

'Dal hi, Bledd!' gwaeddodd, ond ehedodd y bêl i mewn i goeden, a mynd yn sownd rhwng dwy gangen. Rhedodd y cŵn at y goeden, gan neidio i'r awyr a chyfarth ar y bêl: pawb ond Zippy, a eisteddai o'r neilltu gan syllu'n dawel ar y bêl.

'Nawr beth wnawn ni?' gofynnodd Muffin yn ddigalon. 'Does ganddon ni ddim byd i chwarae efo fo rwan.' Dechreuodd redeg mewn cylch o dan y bêl, gan gyfarth, ond stopiodd ymhen tipyn, yn fyr o wynt. 'Rwy'n chwil!' gwichiodd.

Edrychodd Rex ar y goeden. 'Dw i'n gwybod!' cyhoeddodd. 'Rydych chi wastad yn dweud wrtho i am ddefnyddio fy mhen. Wel, edrychwch ar hyn! Fe wna i ei hysgwyd hi i lawr.' A rhedodd Rex yn syth at y goeden mor gyflym ag y gallai, gan fwrw'r boncyff gyda'i ben. Ysgydwodd y goeden a gollwng dail a brigau o'u hamgylch, ond symudodd y bêl ddim. 'Aw!' gwaeddodd Rex. 'Mi oedd hwnna'n brifo!' Roedd Zippy yn dal i eistedd yn syllu ar y bêl goch.

Edrychodd Rosie ar Flick. 'Rwy'n siŵr y gallai un ohonon ni neidio'n ddigon uchel i gael gafael ynddi!' meddai. Dechreuodd y ddau neidio i'r awyr eto, ond ni allai'r naill na'r llall neidio'n ddigon uchel. Yn y diwedd roedden nhw'n rhy flinedig i neidio mwy, a chwympodd y ddau yn swp ar y llawr. 1 🐾

Edrychodd y cŵn ar ei gilydd. Roedden nhw i gyd wedi trio cael y bêl i lawr, ond allai dim un ohonyn nhw feddwl am ffordd a fyddai'n gweithio. O'r diwedd, siaradodd Zippy.

'Chawn ni byth mohoni i lawr fel hyn. Ond mae gen i syniad. Rex, cer at y goeden, rho dy bawennau blaen mor bell i fyny'r boncyff ag y gelli di.'

Aeth Rex at y goeden, safodd ar ei goesau ôl, gan roi ei bawennau blaen ar y boncyff nes roedd yn sefyll yn syth. Cerddodd Zippy mewn cylch o amgylch Rex. 'Nawr Rosie, dw i am i ti sefyll ar ysgwyddau Rex a rhoi dy draed blaen ar ben Rex. Rex, ydy hynny'n iawn gyda ti?'

Edrychodd Rex i lawr ar Zippy. 'Wel, ydy, ond ddim yn rhy hir. Mae 'mhen i'n dal i frifo!' Rhedodd Rosie a neidio'n ysgafn ar gefn Rex, gan sefyll ar ei ysgwyddau. Roedd hi bron cyn uched â'r bêl goch.

'Alla i mo'i chyrraedd hi Zippy! Dydy hyn ddim yn mynd i weithio!' Ond roedd Zippy yn rhedeg mor gyflym ag y gallai tuag at Rex a Rosie. Rhedodd i fyny cefn Rex a thros Rosie, cyn neidio i'r awyr a chnocio'r bêl allan o'r goeden. Cwympodd Rex a Rosie i'r llawr a glaniodd Zippy am ben Rex. Lwc ei fod yn gi mor fach!

'Ydych chi'ch dau'n iawn?' gofynnodd Zippy. 'Ydyn,' meddai Rosie a Rex gyda'i gilydd. Aeth Flick at Zippy. 'Dyna syniad clyfar. Da iawn ti!'



'Nid dim ond fi o'dd e,' meddai Zippy. 'Allwn i ddim bod wedi ei wneud e heb Rex a Rosie, wedi'r cwbwl.'

A chyda hynny, i ffwrdd â Zippy eto, fel peth gwyllt ar ôl y bêl goch.

Myfyrio

🐾 1 A allwch chi feddwl am ffordd saff i'r cŵn gael y bêl i lawr?

Allwch chi feddwl am rywbeth wnaethoch chi ar eich pen eich hun, heb help unrhyw un arall o gwbl? Yn aml rydyn ni'n meddwl ein bod ni wedi gwneud rhywbeth ar ein pen ein hun, ond fel arfer bydd rhywun arall wedi ein helpu ni, hyd yn oed os nad ydyn ni'n sylweddoli hynny. Efallai eu bod nhw wedi dysgu rhywbeth i ni, neu wedi gwneud yr offer y gwnaethon ni ei ddefnyddio. Bydd rhywun arall wastad wedi helpu.

Meddyliwch am rywbeth rydych chi wedi ei wneud drwy weithio gyda phobl eraill gartref neu yn yr ysgol. Sut gallech chi helpu pobl eraill?

Thema: Herio bwlis
Cerddoriaeth Bosibl: 'When the going gets tough' (Boyzone) 'Search for the Hero' (M People)

Fy mhowlen i yw honna!

Roedd hi'n nosi pan ddaeth un o Ofalwyr Dogs Trust â swper i'r cŵn. Dechreuodd Flick, Rosie, Zippy a Muffin fwyta eu bwyd, ond roedd Rex yn dawel iawn am unwaith. 'Dw i - yyy - jyst yn mynd i fwyta rownd y gornel,' meddai yn nerfus. Cododd Flick ei ben. 'Ti'n iawn, Rex?' gofynnodd, gan droi ei ben i'r ochr. 'Ym, ydw,' atebodd Rex. 'Dw i'n iawn, wir. Ffansïo newid. Dyna i gyd.'

Roedd Flick eisiau bwyd, a dechreuodd fwyta eto. 'Iawn. Wela i di,' mwmiodd â'i geg yn llawn. Roedd y cŵn eraill yn rhy brysur yn llowcio'u bwyd i sylwi. Daeth Rex yn ôl yn ddiweddarach, yn dal ei bowlen yn ei geg a'i rhoi'n ôl yn ei lle arferol. 'Helo, lle ti wedi bod?' gofynnodd Zippy, gan edrych ar Rex. 'Nunlle!' meddai hwnnw'n sydyn. 'Dw i wedi blino!' ychwanegodd. 'Nos da!' Gyda hynny, gwnaeth Rex ei hun yn belen fach yn ei fasged yn wynebu'r wal, gan adael Flick yn methu deall beth oedd yn bod: doedd e erioed wedi gweld Rex yn bwyta ar ei ben ei hun o'r blaen.

Amser brecwast, symudodd Rex ei bowlen rownd y gornel eto. Gwyliodd Flick wrth i Rex sleifio i ffwrdd. Daeth yn ôl cyn i'r gweddill orffen, ac roedd Flick yn siŵr bod Rex yn syllu'n newynog ar eu powlenni wrth iddyn nhw eu llyfu'n lân. Y diwrnod hwnnw, roedd Rex yn dawelach nag arfer, yn hepian o dan y goeden yn lle chwarae gyda'r gweddill fel y byddai'n arfer gwneud. Bu Zippy yn ei wylio am dipyn cyn rhedeg ato. 'Tyrd i chwarae!' cyfarthodd Zippy. 'Mae'n ddiwrnod bendigedig - paid â'i wastraffu!'



'Gad lonydd i fi!' ysgyrnygodd Rex, gan wthio Zippy i ffwrdd gyda'i bawen. Roedd Zippy wedi'i frifo ac yn methu deall pam roedd Rex mor anghyfeillgar. Aeth i chwilio am Flick. 1 🐾

Doedd Flick ddim wedi gweld beth oedd wedi digwydd rhwng Rex a Zippy, a gwrandawodd yn astud ar stori Zippy. 'Zippy, elli di gadw cyfrinach?' gofynnodd ar ôl i Zippy orffen. Nodiodd Zippy yn ddifrifol. 'Mae Rex wedi bod yn ymddwyn yn od ers i'r ci newydd 'na - Biff - ddod i'r Ganolfan yr wythnos diwethaf. Rwy'n credu bod rhywbeth yn mynd 'mlaen rhyngddyn nhw, ac rwy'n credu y dylen ni ddarganfod beth yw e. Os bydd Rex yn mynd â'i bowlen rownd y gornel amser swper, trïa weld i ble mae e'n mynd - ond paid â chael dy ddal!'

Y noson honno, llithrodd Rex oddi yno gyda'i bowlen unwaith eto. Yn dawel bach, cripiodd Zippy ar ei ôl a chraffu rownd y gornel. Ben arall y coridor, roedd Rex gyda Biff - yn gwagio'r bwyd o'i bowlen e i bowlen Biff! Rhedodd Zippy yn ôl yn gyflym i ddweud wrth Flick beth roedd newydd ei weld. 'Mae rhaid ei fod e'n llwgu!' meddai Zippy. Roedd Flick yn cytuno.

'Gallwn ni setlo hynna'n ddigon hawdd,' meddai. Galwodd y cŵn eraill ato a siaradodd yn dawel am ychydig. Gadawodd pob un ohonyn nhw ychydig o fwyd yn eu platiau y noson honno. Pan ddaeth Rex yn ôl yn nes ymlaen, ni allai gadw ei lygaid oddi ar y gweddillion bwyd! 'Rydw i'n meddwl eu bod nhw wedi rhoi gormod i ni heno,' meddai Zippy. 'Wyt ti eisiau ychydig yn rhagor?' ychwanegodd Flick. Gwenodd Rex o glust i glust.

'Plîs!' cyfarthodd. Ar ôl i Rex fwyta (a chymrodd hynny fawr o amser), siaradodd Flick ag ef yn dawel am ychydig. Edrychodd Rex ar y llawr wrth iddo ateb cwestiynau Flick, ond o'r diwedd cododd ei ben eto, ac roedd i'w weld yn llawer hapusach wedi iddyn nhw orffen siarad.

Galwodd Flick y gweddill atyn nhw. 'Mae Rex wedi cael ychydig o drafferth gyda Biff. Mae'n debyg ei fod ychydig bach yn rhy awyddus i fod yn fos ar y lle 'ma, ac mae e wedi penderfynu trio dangos hynny i Rex, gan fod Rex mor fawr. Mae wedi bygwth Rex mewn pob math o ffyrdd i wneud iddo roi bwyd iddo fe bob amser bwyd, ond rwy'n credu y gallwn ni ddangos i Biff na chaiff e ddim pigo ar Rex fel hynny.' A dyma Flick yn closio at y cŵn i ddweud beth roedd e'n bwriadu ei wneud. 2 🐾

Y bore nesaf, bwytaodd Rex ei frecwast gyda'i ffrindiau. Cyn hir, dyma Biff ymddangos. 'Ble mae 'mwyd i?' chwyrnodd yn ffyrnig.

'Wrth ymyl dy fasged, lle mae'r Gofalwr wedi ei roi e,' atebodd Rex yn dawel. Symudodd Biff tuag at bowlen Rex, ond safodd Flick a'r gweddill yn ei ffordd. 'Os wyt ti'n pigo arna i,' meddai Rex, gan edrych ar Biff dros bennau'r gweddill, rwyt ti'n pigo ar fy ffrindiau i hefyd. Dydyn ni ddim yn dioddef bwlio fan hyn, felly cer yn ôl a bydd yn fodlon gyda dy fwyd dy hun.' Chwyrnodd y cŵn eraill ar Biff wrth i Rex siarad, ac roedd Biff yn deall. Doedd ffrindiau Rex ddim am adael iddo wneud beth fynnai, a doedd e ddim yn ddigon mawr i guro'r pump ohonyn nhw. Rhythodd Biff arnyn nhw a cherdded oddi yno. Anadlodd Rex yn ddwfn. 'Diolch i chi i gyd - nawr mi ga i fwynhau fy mwyd eto!'

Myfyrio

🐾 1 Pam roedd Rex yn ymddwyn mor rhyfedd?

🐾 2 Beth fyddech chi'n ei wneud?

Roedd Rex yn iawn i ddweud wrth Flick. Pwy arall y gallai fod wedi dweud wrthyn nhw? Wrth bwy dylech chi ddweud os oes rhywun yn eich bwlio chi? Beth ddylech chi ei ddweud wrthyn nhw? Mae hi'n bwysig herio bwlis, a helpu unrhyw un sy'n cael ei fwlio. Meddyliwch beth allech chi ei wneud i ddangos nad oes lle i fwlio yn eich ysgol chi. Fel y cwn yn y stori, sut gallwn ni herio bwlis heb fod yn fwlis ein hunain? Pwy all helpu?

Weithiau bydd pobl yn bwlio eu cŵn. Dydy cŵn, fel pobl, ddim yn hoffi cael eu trin fel hyn, a dydyn nhw ddim yn gallu deall pam nad yw eu perchenogion yn hapus gyda nhw - maen nhw'n hoffi plesio eu perchenogion a'u gwneud yn hapus. Sut gallech chi wneud i'ch ci deimlo eich bod yn ei garu?

Y peth anoddaf i’w ddweud

Roedd Rex yn cysgu dan y goeden yng ngardd y Ganolfan Ailgartrefu. Roedd hi’n ddiwrnod poeth, ac roedd e wedi blino ar ôl bod yn cicio pêl gyda Zippy drwy’r bore. Roedd Zippy yn llawn egni ac yn dal i redeg rownd gyda’r bêl yn yr haul, ond diflasodd yn fuan ar chwarae ar ei ben ei hun. Gadawodd Zippy y bêl ac aeth i chwilio am Flick, Rosie a Muffin.

Roedden nhw yn y Ganolfan Ailgartrefu yn mwynhau’r cysgod ac yn cael diod o ddŵr ffres.

‘Helo Zippy!’ galwodd Rosie. ‘Tyrd i gael diod o ddŵr - mae angen un arnat ti yn y tywydd poeth yma.’ Dywedodd Zippy helo, eisteddodd a llowcio’r dŵr o’i bowlen. ‘Dewch i chwarae gyda fi!’ ymbiliodd arnyn nhw, gan redeg mewn cylchoedd o amgylch y cŵn eraill. ‘Na!’ atebodd Flick. ‘Rydyn ni’n rhy boeth ac yn rhy flinedig. Efallai y down ni allan eto pan fydd hi wedi oeri tipyn. Pam nad ei di i gysgu am dipyn bach?’ Ond doedd dim diddordeb gan Zippy.

‘Dim siawns!’ gwaeddodd, gan redeg allan yn ôl. ‘Rydych chi i gyd mooor boooring!’

Efallai y byddai Rex yn chwarae gyda fe! Rhedodd at Rex, ac roedd ar fin ei ddeffro, ond newidiodd ei feddwl. Roedd yn gwybod na fyddai Rex am gael ei ddeffro a doedd Zippy ddim am gael ei gnoi gan Fleddyn blin. Yna cafodd syniad: efallai y gallai chwarae gyda Rex heb ei ddeffro? Rhuthrodd Zippy i un ochr i Rex, ac yna, gan redeg nerth ei draed, neidiodd dros ben Rex. Chwarddodd wrth iddo lanio: am hwyl! Rhedodd Zippy yn ôl, ac yna neidiodd yn ôl dros Rex o’r cyfeiriad arall. Erbyn hyn roedd yn piffian chwerthin. Aeth ymlaen i neidio dros Rex o’r naill ochr i’r llall, gan drio peidio chwerthin yn rhy uchel rhag iddo ddeffro Rex. Roedd neidio dros gi mor fawr â hwnnw’n cysgu mor ddoniol! Edrychodd Zippy ar Rex. Efallai y gallai neidio o un pen i’r llall? Roedd yn gi bach heini wedi’r cyfan. 1 🐾

Gadawodd Zippy gymaint o le ag y gallai i redeg, neidiodd gan glirio’r pen, y cefn hir, a glanio...

...yn syth ar goesau ôl Rex! ‘Aw!’ gwaeddodd Zippy a Rex yr un pryd, ond trodd Rex, oedd ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd, gan chwyrnu a chnoi coes Zippy. ‘Aw!’ gwaeddodd Zippy eto, yn uwch nag o’r blaen. ‘Roedd hwnna’n brifo!’ ‘Eitha gwaith, y ci bach dwl!’ chwyrnodd Rex, yn flin iawn ei fod wedi cael ei ddeffro yn y fath ffordd. Rhedodd Zippy i mewn gan grio a dweud wrth y cŵn eraill beth oedd wedi digwydd. Doedd dim un ohonyn nhw’n cydymdeimlo â Zippy. Roedden nhw i gyd yn meddwl y dylai fod wedi gwybod yn well. 2 🐾

Wrth i’r dydd fynd yn ei flaen, gwrthod siarad â’i gilydd yr oedd Zippy a Rex. Byddai Rex yn chwyrnu pan fyddai Zippy yn agos, a byddai Zippy yn dweud dan ei anadl ‘Y ffŵl blin,’ pan fyddai Rex yn agos (ond yn rhy bell i’w glywed). Roedd y cŵn eraill yn dechrau cael digon ar y ddau ohonyn nhw. ‘Pam nad ei di draw i ddweud ei bod yn ddrwg gen ti?’ awgrymodd Muffin wrth Zippy. ‘Dim siawns!’ atebodd Zippy. ‘Fyddwn i ddim wedi ei wneud e tasech chi wedi chwarae gyda fi. Nid fy mai i oedd hi ‘mod i wedi diflasu. Mi wnaeth e gnoi ‘nghoes i’n gas!’

Gwrthododd Rex ymddiheuro hefyd. ‘Dim ond achos ei fod wedi glanio arna i y gwnes i ei gnoi e. Ddylai fe ddim bod wedi gwneud.’ 3 🐾

Roedd y ddau gi’n rhy ystyfnig i ymddiheuro gyntaf: llyfai Zippy ei goes ddolurus, a gorweddai Rex ar ei wely mewn tymer ddrwg. Roedd y diwrnod yn ddiflas i’r cwn eraill hefyd. Dechreuodd tymer Zippy a Rex ddweud arnynt hwythau hefyd, nes bod y cŵn i gyd yn gorwedd ar eu gwelyau’n fud. Dechreuodd nosi, a buont yn bwyta mewn tawelwch cyn mynd yn ôl i’w gwelyau. Roedd hi’n teimlo fel oriau ers i’r un ohonynt siarad.

O’r diwedd, aeth Zippy at Rex. Roedd Zippy wedi bod yn gwylio’r cŵn eraill ers tipyn. Doedden nhw ddim fel arfer fel hyn, a dechreuodd sylweddoli o’r diwedd efallai mai ef oedd ar fai. ‘Mae’n ddrwg gen i am neidio arnat ti a dy ddeffro di, Rex,’ ymddiheurodd. ‘Ond damwain oedd hi.’ Edrychodd Rex ar Zippy. Ar ôl amser a oedd yn teimlo fel oes, gwenodd. ‘Rwy’n flin hefyd. Mi ddylwn fod wedi aros i weld pwy oedd e cyn dy gnoi di. Ond ddylet ti ddim bod wedi neidio ar fy mhen i fel yna!’

Ochneidiodd Zippy a Rex yn hapus. Roedd y ddau’n falch eu bod yn ffrindiau eto o’r diwedd.

‘Diolch byth am hynny!’ meddai Flick. ‘Roeddwn i’n ofni y byddai’r ddau ohonoch chi’n mynd i’r gwely’n grac heno!’



Myfyrio

🐾1 Beth fydd yn digwydd nesaf, yn eich barn chi? 🐾2 Pam y gwnaeth Rex gnoi Zippy? 🐾3 Pwy oedd ar fai, yn eich barn chi?

Meddyliwch am amser pan ddylech chi fod wedi dweud ‘Mae’n flin gen i’ neu ‘Mae’n ddrwg gen i’ ond na wnaethoch chi ddim. Sut roeddech chi’n teimlo? Yn bwysicach, sut roedd y person arall yn teimlo? Y tro nesaf y byddwch chi’n gwneud rhywbeth o’i le, dwedwch ‘Mae’n flin gen i’ neu ‘Mae’n ddrwg gen i’ cyn gynted ag y gallwch chi. Trïwch weld sut mae’n gwneud i chi deimlo a sut mae’n gwneud i’r person arall deimlo hefyd.

Fel chi, os caiff cŵn eu deffro yn sydyn, gallant ddychryn a throi’n ffyrnig. Byddwch yn ofalus pan fyddwch chi’n agos at gŵn a gwnewch yn siŵr na fyddwch yn eu dychryn.

Thema: Ffarwelio
Cerddoriaeth Bosibl: 'Goodbye' (Spice Girls)

Ffarwél

Roedd yr holl gŵn yn y Ganolfan Ailgartrefu wedi cynhyrfu. Roedd teulu wedi dod i weld a oedden nhw am fabwysiadu un ohonyn nhw! Roedd pobl yn aml yn dod i weld y cŵn ac weithiau bydden nhw'n dewis un. Os bydden nhw, byddai Gofalwr Cŵn yn mynd i'w gweld yn eu cartref i wneud yn siŵr eu bod yn gallu gofalu am y ci, ac wedyn byddai'r teulu'n ymweld â'r Ganolfan unwaith neu ddwywaith eto i weld sut y bydden nhw'n dod ymlaen gyda'r ci lwcus.

Mae'n rhaid i Dogs Trust fod yn siŵr bod y teulu wedi meddwl yn ofalus iawn am y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth fod yn berchen ar gi, a pha fath o gi fyddai orau ar gyfer eu teulu nhw, cyn iddyn nhw ailgartrefu'r ci. Roedd y cŵn i gyd yn edrych ymlaen at gael cartref newydd, ond doedden nhw ddim yn edrych ymlaen at adael eu ffrindiau.

Arhosodd Flick, Rosie, Rex, Muffin a Zippy am eu tro. Roedd teulu heddiw i'w gweld yn neis. Roedden nhw'n edrych fel y math o deulu oedd yn gwybod sut i ofalu am gi yn iawn! Fesul un, cafodd y cŵn gwrdd â'r teulu. Gwnaethon nhw'n siŵr eu bod yn bihafio, a cheisio edrych eu gorau. Daeth y teulu at Zippy yn olaf. Dim ond ci bach oedd e ac roedd yn llawer mwy cynhyrfus na'r gweddill. Neidiodd i fyny ac i lawr gan ysgwyd ei gynffon, cyn rhedeg mewn cylchoedd. Pwyntiodd y ddau blentyn at Zippy gan weiddi, 'Hwn! Hwn!'

Allai Zippy ddim credu ei glustiau a chynhyrfodd fwy fyth, ond roedd y cŵn eraill i gyd yn dawel. Doedden nhw ddim yn adnabod Zippy ers llawer o amser, ond roedd yn ffrind iddyn nhw, hyd yn oed os oedd e'n cynhyrfu braidd gormod weithiau. Y prynhawn hwnnw, roedd Zippy yn rhedeg o gwmpas fwy nag arfer hyd yn oed gan weiddi, 'Mae gen i deulu newydd!' Doedd y cŵn eraill ddim mor chwareus. Roedden nhw'n drist am beidio cael eu dewis a hefyd am eu bod ar fin colli Zippy.

Roedd yr wythnos nesaf yn wythnos anodd i'r cŵn i gyd. Roedd Zippy wedi tawelu ychydig, a dechreuodd siarad am sut fath o fywyd y byddai'n ei gael gyda'i deulu. 'Byddwn ni'n mynd am dro bob dydd ac efallai y caf i gnapiau siocled ganddyn nhw a phêl newydd!' Chwaraeodd Flick, Rex, Rosie a Muffin gyda Zippy gymaint â phosibl, ond roedd ei holl gwestiynau'n eu gwneud yn fwy trist - wedi'r cyfan, roedden nhw i gyd eisiau teulu i'w caru hefyd. Ond gwnaethon nhw'r gorau o weddill yr wythnos hyd nes daeth yr amser i Zippy adael. 1 🐾

Arhosodd y pedwar ci am eu tro i ffarwelio. Roedd Rosie a Muffin yn crio wrth iddyn nhw ddweud hwyl fawr. Rhoddodd Flick ei bawen ar ysgwydd Zippy. 'Roedd hi'n grêt dy gael di yn y gang!' meddai, yn ceisio anwybyddu'r lwmp yn ei wddf. 'Rwy'n gwybod 'mod i'n flin gyda ti weithiau, ond rwy'n falch iawn ein bod ni wedi cwrdd!' Gostyngodd Rex ei ben, er mwyn edrych ym myw llygaid Zippy.

'Rwyt ti'n haeddu dy deulu newydd - ac maen nhw'n dy haeddu di. Rwy'n gobeithio y byddi di'n hapus iawn gyda nhw.' Trodd ei ben yn gyflym i guddio'r deigryn yn ei lygad rhag Zippy.

'Fe ddof fi i'ch gweld chi!' galwodd Zippy wrth iddo sgipio oddi yno gyda'i berchenogion newydd, ond roedd y cŵn yn gwybod na fyddai hynny'n bosibl.

Y prynhawn hwnnw, wnaeth y cŵn ddim gyda'i gilydd. Doedd rhedeg ar ôl y bêl ddim yn llawer o hwyl mwyach ac roedd y lle'n dawel ac yn wag rywsut. Doedd dim awydd chwarae na siarad ar yr un o'r cŵn. Roedden nhw i gyd yn teimlo eu bod wedi colli rhan ohonynt eu hunain - rhywbeth na fydden nhw'n gallu dod o hyd iddo eto. Buon nhw fel yna am beth amser, yn meddwl yn dawel pa mor drist oedden nhw, tan i Muffin ddechrau chwerthin yn ysgafn. 'Ydych chi'n cofio'r tro cyntaf inni gwrdd â Zippy ac yntau'n gwrthod gadael i Rex fwyta ei frecwast?'

'Neu pan redodd e i fyny fy nghefn i a Rex i nôl y bêl o'r goeden?' meddai Rosie, gan ddechrau gwenu.

'Rwy'n cofio pan drïodd Zippy neidio dros Rex a glanio reit ar ei ben e!' ychwanegodd Flick. 'Rex - wyt ti'n cofio pa mor grac roeddet ti gyda fe?' O'r diwedd gwenodd Rex hefyd. Rhywsut roedd e wedi llwyddo i golli ei amynedd gyda Zippy fwy nag unrhyw un arall, ond fe oedd yn ei golli fwyaf hefyd. 'Ydw, rwy'n cofio,' meddai. 'Wrth feddwl am y peth, hwnna oedd y peth mwyaf doniol i ddigwydd ers oesoedd. Rwy'n falch ein bod ni wedi cwrdd â Zippy - ond rwy'n falch ei fod wedi cael cartref iawn gyda theulu a fydd yn ei garu ac yn rhoi cnapiau siocled iddo!'

Roedd y cŵn i gyd yn cytuno. Roedden nhw i gyd yn colli Zippy yn barod, ac roedden nhw'n gwybod y bydden nhw'n dal i deimlo'n drist am beth amser. Ond roedden nhw'n hapus hefyd. Wedi'r cyfan, pe na bydden nhw wedi cwrdd â Zippy, fyddai ganddyn nhw ddim cymaint o atgofion melys.

Myfyrio

🐾1 Sut mae Zippy yn teimlo? Sut mae'r gweddill yn teimlo?

Pan fydd ffrind yn gadael mae hi'n naturiol i deimlo'n drist. Ond gall hefyd fod yn amser i ddathlu. Cofiwch yr holl amseroedd da gawsoch chi oherwydd ichi gwrdd â'ch gilydd - fe ddylech chi wastad fod yn falch o'r amserau hynny y cawsoch chi eu rhannu. Weithiau, dim ond pan fydd rhywun yn mynd y byddwn ni'n sylweddoli faint o feddwl oedd gennym ohonynt fel ffrind. Meddyliwch am eich ffrindiau eich hunain - ydych chi'n gwerthfawrogi digon arnyn nhw?

© Dogs Trust 2004. Caniateir i sefydliadau addysgol lungopïo'r deunyddiau hyn am ddim. Cedwir pob hawl. Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch atgynhyrchu'r ddogfen hon, ac eithrio mewn sefydliadau addysgol, at: Legal Department, Dogs Trust, 17 Wakley Street, Llundain EC1V 7RQ. Cynhyrchwyd mewn cydweithrediad ag Education Connections Limited.